| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 19 Hydref 2023 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Y Cyng. Win-Mullen James - Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio<br><br>Y Cynghorydd Peter Scott - Cadeirydd – Grŵp Tasg a Gorffen Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones<br>Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Kimberley Mason (Rheolwr Prosiect Corfforaethol) |
| **Teitl** | **Adolygiad o Asesiad Llety Teithwyr a Sipsiwn Sir Ddinbych (2023)** - adroddiad yn ôl i Graffu Cymunedau o'r Grŵp Tasg a Gorffen |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chyflwyno asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru (LlC) bob 5 mlynedd. Cyflawnodd y Cyngor yr asesiad rhwng Awst a Hydref 2021, a chafodd ei gyflwyno i LlC ar 24 Rhagfyr 2021.

1.2. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet a chyflwyniad yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr blaenorol i LlC, roedd teulu gydag angen, a oedd wedi gwrthod cymryd rhan yn flaenorol, wedi cysylltu â'r Cyngor i ofyn am gael eu cynnwys.

1.3. Yn dilyn adroddiad i Friffio'r Cabinet ar 9 Ionawr 2023, sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn cefnogi'r gwaith ar yr asesiad newydd. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen bellach

wedi gorffen ei waith ac mae adroddiad terfynol gan y Grŵp wedi'i atodi fel Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu casgliadau gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen.

1.4. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflwyno drafft diwygiedig o'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr, wedi'i atodi fel Atodiad 2 i'w ail-gyflwyno i LlC yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Pwyllgor Craffu ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen. Mae gwaith ar yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig bellach wedi'i gwblhau a bydd casgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen yn helpu i hysbysu ystyriaethau Craffu o'r Asesiad diwygiedig drafft.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Craffu yn cefnogi casgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen fod methodoleg LlC wedi cael ei gymhwyso'n briodol i'r dadansoddiad o angen.

3.2. Bod Craffu yn cadarnhau cefnogaeth ar gyfer y dull cadarn a fabwysiadwyd i ddarparu Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych a'i fod yn unol â chanllawiau LlC.

3.3. Bod Craffu yn argymell i'r Cabinet fod yr Asesiad diwygiedig drafft yn cael ei gymeradwyo i gael ei ail-gyflwyno i LlC.

3.4. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les, sydd wedi'i atodi fel Atodiad 3 fel rhan o'i ystyriaethau. Cafodd hyn ei gwblhau cyn cyflwyno'r asesiad cyntaf yn 2021 ac wedi'i adolygu yn 2023.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Cefndir

4.1. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr (Adran 101) ac yna diwallu'r anghenion hynny (Adran 103). Mae gofyniad cyfreithiol (Deddf Tai (Cymru) 2014) i gyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr bob 5 mlynedd o leiaf. Mae Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf hefyd yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Y dyddiad cau i gyflwyno Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru oedd 24 Chwefror 2022, ond mae caniatâd i awdurdodau lleol gyflwyno Asesiad

o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig tan derbyn cymeradwyaeth LlC. O fis Medi 2023, nid oedd LlC wedi darparu unrhyw adborth i unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru heb unrhyw ddynodiad clir o ran pryd fuasai hyn yn debygol o ddigwydd chwaith.

4.2. Mae LlC wedi cyhoeddi canllawiau statudol manwl '*Cyflawni Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr*'[1] a bydd yn asesu'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi'i gwblhau yn erbyn y fethodoleg hon.

4.3. Cafodd dull rheoli prosiectau cadarn ei fabwysiadu drwy ailsefydliad Bwrdd Prosiect o dan arweiniad Aelod yn 2022, gyda'r Aelod Arweiniol yn gweithio gydag Uwch Swyddogion i gyfeirio'r gwaith i sicrhau ymgysylltiad Aelodau, agoredrwydd a thryloywder.

## Grŵp Tasg a Gorffen

4.4. Diben y Grŵp oedd i sicrhau bod y camau a gymerwyd i ddarparu'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig yn cydymffurfio â methodoleg LlC a bod adborth blaenorol o ran cyfranogiad Aelodau a chymuned yn cael ei gymryd i ystyriaeth o fewn y ddogfen yn unol â gofynion Craffu.

4.5. Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi cwrdd tair gwaith ers Mawrth 2023. Maent wedi adolygu cynnydd ar yr asesiad a chanfyddiadau'r adroddiad o Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig drafft. Mae'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Win Mullen-James hefyd wedi mynychu cyfarfodydd fel aelod o'r grŵp. Mae'r adroddiad llawn ynghlwm fel Atodiad 1 .

4.6. Cafodd canfyddiadau'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig drafft eu cyflwyno i'r Grŵp Tasg a Gorffen yn ei gyfarfod ar 21 Medi a chytunodd y grŵp eu bod yn fodlon fod methodoleg LlC wedi cael ei gymhwyso'n briodol i'r dadansoddiad o angen.

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cynnal-asesiadau-o-anghenion-llety-sipsiwn-a-theithwyr.pdf

4.7. Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i godi ymwybyddiaeth o’r Asesiad ac i ymgysylltu â chymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr yn unol â’r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid, pan gyflawnwyd y gwaith dechreuol yn 2021.

4.8. Ar gyfer yr asesiad diwygiedig, cysylltodd yr ymgynghorwyr, Opinion Research Services (ORS), a gyflawnodd yr asesiad yn 2021 ar gyfer Sir Ddinbych, â’r teulu ychwanegol er mwyn eu cynnwys yn yr adroddiad, gan asesu eu hanghenion gan ddefnyddio’r holiadur arolwg a ddarparwyd o fewn methodoleg LlC. Cysylltodd ORS gyda’r teuluoedd presennol hefyd a gyfwelwyd yn 2021 er mwyn sicrhau nad oedd eu hamgylchiadau wedi newid a bod eu gwybodaeth yn cael ei ddiweddaru.

4.9. Mae gwaith ar yr Asesiad bellach wedi’i gwblhau ac mae Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig drafft wedi’i atodi yn Atodiad 2.

4.10. Casgliad Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig drafft Sir Ddinbych oedd:

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn astudiaeth ORS, y ddarpariaeth llain ychwanegol amcangyfrifedig sydd ei angen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych am 5 mlynedd gyntaf y cyfnod astudiaeth (2023/24 - 2028/29) yw ar gyfer **16 llain breswyl barhaol.**

Yn seiliedig ar yr angen erbyn 2033, diwedd cyfnod CDLl Newydd Sir Ddinbych, bydd angen **2 lain preswyl parhaol** pellach ar gyfer twf aelwyd yn y dyfodol.

Mae hyn yn rhoi cyfanswm angen ar gyfer y cyfnod cyfan ar draws Sir Ddinbych am **18 o leiniau preswyl parhaol sy’n gynnydd o 6 llain breswyl barhaol o’r Asesiad blaenorol a gwblhawyd yn 2021.**

I gadarnhau, mae 1 llain yn bodloni anghenion 1 aelwyd.

**Nid oes tystiolaeth o’r angen am safle tramwy parhaol** oherwydd niferoedd isel gwersylloedd diawdurdod, natur tymor byr y math yma o wersylloedd a'r ffaith nad oedd cyfweliadau gyda’r gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi dynodi’r angen am ddarpariaeth dramwy barhaol yn lleol.

4.11. Bydd trafodaethau yn y cyfarfod hwn yn cael ei adrodd i'r Cabinet ar 21 Tachwedd 2023 a'r bwriad yw ceisio cymeradwyaeth yn y cyfarfod i gyflwyno'r Asesiad diwygiedig drafft i LlC ar gyfer cymeradwyaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd cwblhad yr Asesiad yn cyfrannu at Amcan Lles a Chydraddoldeb Sir Ddinbych: *Sir Ddinbych â thai o ansawdd sy'n bodloni anghenion pobl* trwy ganfod anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cafodd yr ymgynghorwyr eu caffael ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn cyflawni'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr. Mae ymrwymiad Sir Ddinbych o £5,500 wedi'i ddiwallu o gyllideb CDLl. Bydd unrhyw gostau a ysgwyddir o'r gwaith ychwanegol yn cael ei ariannu trwy'r comisiwn gwreiddiol a chyllideb CDLl.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Cyflawnwyd Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer y prosiect yn 2021 a'i adolygu yn 2023 ar gyfer y gwaith ychwanegol hwn, ac wedi'i atodi fel Atodiad 3 . Mae hyn yn golygu bod yr effaith cyffredinol yn gadarnhaol ac yn parhau felly.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cwrdd tair gwaith ers ail-ymgynnull ym Mawrth 2023 ac roedd y trafodaethau yn llywio gwaith y rhaglen er mwyn i ORS gwblhau'r Asesiad diwygiedig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodir yn Adran 6 nid oes yna gostau uniongyrchol sy'n ymwneud â gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen a chroesawir bod costau cychwynnol ymgynghorwyr wedi'i gymryd i ystyriaeth o fewn cyllidebau presennol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1. Mae nifer o risgiau i’r prosiect wedi cael eu canfod a chawsant eu cynnwys yn yr asesiad risg achos busnes y prosiect llawn. Canfuwyd bod diffyg cefnogaeth wleidyddol yn risg sylweddol a arweiniodd at ymgysylltiad yr Aelod Arweiniol yn y prosiect o’r dechrau, yn ogystal ag ymgysylltiad yr Arweinydd yn ystod y gwaith a gwblhawyd yn 2021. Bydd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen ac adroddiadau i Graffu yn sicrhau mwy o gyfraniad gan Aelodau yn y prosiect o’r dechrau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Adran 101 - Deddf Tai (Cymru) 2014
Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Adran 7.4.1 ac Adran 7.4.2 (d) o Gyfansoddiad y Cyngor

## Atodiadau

Atodiad 1 - Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Hydref 2023

GTAA - T & F Group report FINAL.pdf

**Atodiad 2 - Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Diwygiedig 2023 ar gyfer Sir Ddinbych**

[insert link]

**Atodiad 3 - Asesiad o’r Effaith ar Les Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2021 (adolygwyd yn 2023)**

WBIA Assessment GTAA 2023 revision.p